sir ddinbych Cyngor
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 28 Ionawr 2025 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Pennaeth y Gwasanaeth** | Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adolygiad o Ddosbarthiadau Etholiadol a Mannau Pleidleisio yn Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn sôn am adolygiad o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio yn Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I Gyngor Sir Ddinbych ystyried yr adolygiad o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio a chadarnhau unrhyw newidiadau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Argymhellwyd bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhwydwaith presennol o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio fel y nodwyd yn atodiad 1, yn amodol ar argymhelliad 3.2 isod.

3.2. Mewn perthynas â ward etholiadol Tremeirchion, argymhellwyd bod y Cyngor yn cefnogi ymateb y Swyddog Canlyniadau i'r sylwadau a wnaed yn atodiad 2 i gyfuno'r tair gorsaf bleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol i un orsaf bleidleisio ar gyfer dosbarthiadau etholiadol BKB, BKC a BKD wedi'u lleoli yn Neuadd Blwyf y Waen.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i adolygu ei ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio o leiaf unwaith bob pum mlynedd. Nod y Cyngor yw sicrhau:

- Ei fod yn cynnal rhwydwaith o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio.
- Bod gan y rhwydwaith ddigon o gyfleusterau i'w gwneud yn hawdd i bobl fynd allan a phleidleisio pan gynhelir etholiad lleol neu genedlaethol.
- Bod mannau pleidleisio yn hygyrch i bobl gydag anableddau, cyn belled ag y bo'n ymarferol.
- Dylai unrhyw newidiadau arfaethedig i'r dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio presennol allu dangos cefnogaeth eang o fewn y dosbarth etholiadol.

4.2. **Dosbarth etholiadol** yw ardal ddaearyddol a grëwyd drwy isrannu ardal etholiadol h.y. etholaeth, ward neu ardal wedi'i rhannu i rannau llai. **Man pleidleisio** yw adeilad neu ardal lle mae gorsafoedd pleidleisio yn cael eu lleoli. **Gorsaf bleidleisio** yw'r ystafell neu ardal o fewn man pleidleisio lle mae'r pleidleisio'n digwydd.

4.3. Gwahoddwyd sylwadau gan y cyhoedd ar y dosbarthiadau etholiadol, y mannau pleidleisio a'r gorsafoedd pleidleisio presennol neu a awgrymwyd yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2024. Fel arweiniad, argymhellwyd y dylai unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau i fannau pleidleisio ystyried y pwyntiau canlynol:

- Ydi'r eiddo yn ddigon mawr ar gyfer nifer yr etholwyr (pleidleiswyr cofrestredig) a ddyrannwyd?
- Ydi'r eiddo mewn lleoliad mor ganolog ag sy'n bosibl ar gyfer y dosbarth etholiadol mae'n ei wasanaethu?
- A oes modd gwarantu y bydd y man pleidleisio ar gael i'w ddefnyddio yn y tymor hir?
- Ydi'r eiddo, cyn belled ag sy'n ymarferol, yn hygyrch i bobl gydag anableddau?

4.4. Anogwyd sylwadau, lle bynnag bo'n bosibl, yn cynnwys awgrymiadau o eiddo amgen y gellir eu defnyddio at ddibenion pleidleisio, o fewn yr un dosbarth

etholiadol. Roedd y cwestiynau y gofynnwyd i'r ymatebwyr eu hystyried fel a ganlyn, gydag adrannau ychwanegol ar gael ar gyfer sylwadau:

1) Yn fy marn i, mae lleoliad y man pleidleisio hwn yn (addas / anaddas / ddim yn siŵr)

2) A yw'n hawdd dod o hyd i'r man pleidleisio? (ydi / nac ydi / ddim yn gwybod)

3) Ydych chi'n meddwl bod yr adeilad ei hun yn addas i'w ddefnyddio fel man pleidleisio? (ydw / nac ydw / ddim yn gwybod)

4) A yw'r orsaf bleidleisio yn hygyrch (yr ystafell neu'r ardal o fewn y man pleidleisio lle mae'r pleidleisio'n digwydd)? (ydi / nac ydi / ddim yn gwybod)

5) A yw'r orsaf bleidleisio yn gwbl hygyrch i'w ddefnyddio gan bleidleiswyr anabl, oedrannus neu fethedig? (ydi / nac ydi / ddim yn gwybod)

6) Ydych chi'n gwybod am fannau pleidleisio addas amgen? (ydw / nac ydw)

7) Os oes gennych chi unrhyw sylwadau yn ymwneud â'r dosbarth etholiadol (dosbarth etholiadol yw ardal ddaearyddol a grëwyd drwy isrannu ardal etholiadol e.e. etholaeth, ward neu ardal wedi'i rhannu i rannau llai), nodwch nhw yma os gwelwch yn dda.

4.5. Mae atodiad 1 yn cynnwys manylion y rhwydwaith presennol o ddosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio ac mae'n nodi'r newidiadau diweddar i'r rhwydwaith pleidleisio. Mae atodiad 2 yn cynnwys yr ymatebion i'r arolwg a oedd yn cefnogi'r trefniadau pleidleisio presennol yn bennaf.

4.6. Fodd bynnag, mae atodiad 2 hefyd yn cynnwys sylwadau a wnaed gan y Swyddog Canlyniadau Gweithredol ar gyfer Etholaeth Seneddol Dwyrain Clwyd mewn perthynas â'r trefniadau pleidleisio yn ward etholiadol Tremeirchion. Argymhellwyd bod y Cyngor yn cefnogi ymateb y Swyddog Canlyniadau i'r sylwadau a wnaed i gyfuno'r tair gorsaf bleidleisio sydd wedi'u lleoli o fewn Neuadd Blwyf y Waen ar gyfer etholiadau seneddol i un orsaf bleidleisio.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae'r adolygiad statudol hwn yn gyson â thema 'Cyngor sy'n cael ei gynnal yn dda, ac sy'n uchel ei berfformiad' y Cynllun Corfforaethol a'r nod o fod yn agos at gymunedau.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes costau na chamau gweithredu ychwanegol ar wasanaethau eraill yn deillio o'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae'r adroddiad hwn yn ddyletswydd statudol ac nid yw'n gofyn am Asesiad o Effaith ar Les. Mae'r adolygiad ei hun yn ceisio nodi a datrys problemau sy'n effeithio ar rwydwaith y sir o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio, yn cynnwys pa mor hygyrch ydynt i bobl gydag anableddau.

7.2. Mae nifer yr adeiladau cwbl hygyrch sydd mewn lleoliad cyfleus ar gyfer etholwyr lleol ac sydd ar gael i'w ddefnyddio fel gorsafoedd pleidleisio yn brin. Mae'r rhwydwaith presennol yn cynnwys 67 o orsafoedd pleidleisio ar draws y sir, gan ddefnyddio adeiladau'r Cyngor, adeiladau cymunedol ac adeiladau preifat o fewn pob ardal leol. Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi cydweithrediad perchnogion eiddo preifat i ddarparu eu hadeiladau ar ddiwrnodau etholiad fel bod gan etholwyr lle cyfleus i bleidleisio.

7.3. Cynhelir asesiad o addasrwydd mannau a gorsafoedd pleidleisio yn rheolaidd ac nid yw'n dibynnu ar fod yr adolygiad statudol hwn yn cael ei gynnal. Gall profiadau o etholiadau diweddar a gynhaliwyd mewn ardal, neu argaeledd posibl eiddo mwy addas e.e. sy'n fwy hygyrch neu sydd wedi'i leoli mewn lleoliad mwy ffafriol, arwain at newid. Weithiau, efallai na fydd adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gael i'w ddefnyddio fel gorsaf bleidleisio a fydd yn arwain at orfod chwilio am eiddo addas amgen.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cyhoeddwyd hysbysiad cyhoeddus y Swyddog Canlyniadau o'r adolygiad hwn a chafodd ei gynnwys ar y tudalennau ymgynghori ar wefan y Cyngor ar 15 Tachwedd 2024 gan roi gwybodaeth ar y rhwydwaith o ddosbarthiadau etholiadol, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio a gwahodd etholwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb i gyflwyno sylwadau. Cafodd Cynghorwyr Sir, Clercod Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned, amrywiaeth o grwpiau hygyrchedd a mynediad i'r anabl a Swyddogion Canlyniadau awdurdodau cyfagos â chyfrifoldeb dros etholiadau penodol o fewn Sir Ddinbych eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad yn dilyn y gofyniad statudol i adolygu mannau a dosbarthau pleidleisio. Byddai'r mân newid a argymhellir yn arwain at arbed rhai cannoedd o bunnoedd o ran staffio ar gyfer etholiadau seneddol, ond caiff costau'r etholiadau hynny eu had-dalu.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae argaeledd mannau a gorsafoedd pleidleisio hygyrch a chyfleus yn y lleoliadau cywir ar draws Sir Ddinbych yn bwysig i etholwyr ac mewn perthynas â gweinyddu etholiadau lleol a chenedlaethol y Cyngor o fewn y sir. Mewn llawer o ardaloedd, gall anawsterau godi o ran nodi adeiladau addas eraill i ddisodli'r rhai nad ydynt yn cael eu hystyried yn addas mwyach neu sydd wedi cael eu tynnu'n ôl rhag cael eu defnyddio ar gyfer etholiadau gan y perchnogion. Dywedodd y Comisiwn Etholiadol yn ei ganllawiau i'r Swyddogion Canlyniadau Gweithredol ar gyfer etholiad cyffredinol y llynedd, 'yn ddelfrydol, bydd gennych y dewis o amrywiaeth o adeiladau cwbl hygyrch, sydd wedi'u lleoli'n gyfleus i etholwyr yn yr ardal, gyda'r perchnogion yn fodlon eu llogi i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio am gost isel. Yn anffodus, yn ymarferol, nid dyma'r achos yn aml ac mewn rhai ardaloedd efallai mai ychydig iawn o ddewis sydd ar gael'.

10.2. I fynd i’r afael â’r perygl hwn, mae Swyddfa'r Etholiad yn parhau i fonitro rhwydwaith gorsaf bleidleisio’r sir drwy gydol y flwyddyn ac yn gwneud newidiadau lle bynnag bo’n bosibl. Bydd Swyddfa’r Etholiad yn ystyried awgrymiadau ar gyfer gwneud newidiadau neu welliannau i’r trefniadau pleidleisio drwy gydol y flwyddyn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Mae Adran 18C Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 (a osodwyd gan Ddeddf Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol 2013) yn gofyn i awdurdodau lleol ymgymryd ag adolygiad o’r dosbarthiadau etholiadol a mannau pleidleisio yn eu hardal bob 5 mlynedd.